COFNODION CYFARFOD O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DDYDD LLUN, 22 IONAWR 2024, AM 4PM

Yn Bresennol

Y Cynghorydd P Davies - Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| S J Bletsoe | J E Pratt | I Williams |

Yn Bresennol o Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | C Davies | M J Evans | P W Jenkins |
| M J Kearn | W J Kendall | G Walter | M J Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Zak Shell | Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |

Aelodau'r Cabinet:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Rhys Goode | Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Llesiant |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Steven Bletsoe – Personol – Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd Melanie Evans – Personol – Aelod o Gyngor Tref Pencoed
Y Cynghorydd Ian Williams – Personol – Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd Jonathan Pratt – Personol – Aelod o Gyngor Tref Porthcawl
Y Cynghorydd Paul Davies – Personol – Aelod o Gyngor Tref Maesteg
Y Cynghorydd Phillip Jenkins – Personol – Aelod o Gyngor Tref Maesteg
Y Cynghorydd Mike Kearn – Personol – Aelod o Gyngor Cymuned y Pîl
Y Cynghorydd Martin Williams – Personol – Aelod o Gynghorau Cymuned Coety Uchaf a Llansainffraid-ar-Ogwr

## 60. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd: Bod cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 dyddiedig 27 Tachwedd 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Ionawr 2024 |

## 61. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaeth gydag Aelodau Cabinet perthnasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r sylwadau a ganlyn:<br><br>**Sylwadau ac Argymhellion Cyffredinol** |

| | |
|---|---|
| | **Cyllid Llywodraeth Cymru**<br><br>Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y diffyg cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd, a'r effaith a gafodd hyn ar gyllidebau awdurdodau lleol o ran bodloni gofynion newydd. Yr enghraifft a ddefnyddiwyd oedd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM), ac er nad oedd yn rhan o gylch gwaith cymunedau, tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod y gofyniad am gyllid ar gyfer UPFSM yn rhoi pwysau ar gyllideb yr awdurdod lleol a bod goblygiadau o ganlyniad i hynny ar bob gwasanaeth wrth orfod ariannu bylchau yn nghyllideb gyffredinol y Cyngor. Roedd y Pwyllgor felly'n cefnogi unrhyw gynnig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ysgrifennu at Lywodraeth Cymru (LlC) i fynegi'r pryderon hyn a gofyn am i ddeddfwriaeth newydd ddod gyda chyllid addas a digonol.<br><br>**1. Proses Ymgynghori ar y Gyllideb**<br><br>Trafododd y Pwyllgor y broses ymgynghori gyffredinol ar gyfer y gyllideb, gan amlygu'r ffaith, er eu bod cael y cyfle i gyflwyno cyllideb a chynnig amgen, gan fod cymaint o Aelodau nad ydynt yn sefyll ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ac felly nad ydynt yn ymwneud â Phanel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb, roedd yn anodd iawn i Aelodau eraill wybod unrhyw fanylion ynghylch unrhyw gynigion amgen. Defnyddiwyd yr enghraifft o Farina Porthcawl, sef pe byddai'r Pwyllgor yn gwybod y llynedd bod yr Awdurdod yn rhoi cymhorthdal i hwn, efallai y byddent wedi cynnig hyn fel arbediad arall i'w wneud y llynedd yn lle rhywbeth arall. Argymhellodd y Pwyllgor felly fod angen adolygu a gwella holl broses y gyllideb gyda'r nod o gydweithio fel 'Un Cyngor'. Cytunodd y Pwyllgor i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar adolygiad o'r prosesau craffu, gan ganolbwyntio'n benodol ar y broses ymgynghori ar y gyllideb.<br><br>**2. Gwaith Stryd**<br><br>Wrth nodi'r sylwadau a ddarparwyd mewn perthynas â thîm Gwaith Stryd yr Awdurdod ac mai dim ond ar drwyddedau i dalu costau'r Cyngor ei hun y gellid gofyn am gostau, argymhellodd y Pwyllgor fod y gyfarwyddiaeth yn ymchwilio i'r hyn yr oedd awdurdodau lleol eraill yn ei wneud yn y maes hwn, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, i benderfynu a oedd unrhyw bosibilrwydd o gwbl o gynhyrchu incwm. |

| | |
|---|---|
| | **3. COM6**<br><br>Mewn perthynas â Gwasanaethau Profedigaeth ac arbedion effeithlonrwydd posibl yn y dyfodol, argymhellodd yr Aelodau bod yr awdurdod lleol yn ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned i ystyried lle gallent gynorthwyo a chymryd rhai cyfrifoldebau yn y dyfodol am gynnal a chadw mynwentydd yn y fwrdeistref sirol.<br><br>**4. COM8**<br><br>**a** Er cydnabod bod y bwriad i gau gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud ag arbedion cyllideb 2025-2026, mynegodd y Pwyllgor bryderon cryf ynghylch effaith y cynnig hwn, gan gynnwys sut y bydd yn effeithio ar y gymuned, tref Pen-y-bont ar Ogwr, a'i chysylltiadau trafnidiaeth. Cyfeiriodd y Pwyllgor at orsafoedd bysiau mawr eraill mewn awdurdodau lleol eraill lle maent wedi dod o hyd i le ar gyfer hysbysebion ar waliau gwag, gan greu incwm i'r awdurdod. O ystyried faint o le hysbysebu posibl sydd ar gael yng ngorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr, argymhellodd y Pwyllgor fod yr awdurdod yn cael gwared ar COM8 fel arbediad effeithlonrwydd posibl, ac yn lle hynny yn rhoi cynnig ar gyfer creu incwm masnachol posibl er mwyn amddiffyn yr orsaf fysiau ar gyfer y dyfodol.<br><br>**b** Yn ogystal â hyn, gan gefnogi'r hyn a ddywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ynghylch edrych ar asedau'r Cyngor a sut y gallent fod yn fwy ynni-effeithlon, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y gyfarwyddiaeth yn archwilio mentrau ynni-effeithlon posibl y gellid eu cyflwyno i orsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr. Awgrymodd yr Aelodau y gellid gosod paneli solar, er enghraifft, ar y cyfleuster hwn, a allai helpu i liniaru costau cysylltiedig yr orsaf.<br><br>**5. COM9**<br><br>Mewn perthynas â rhoi'r gorau i'r cynllun Shopmobility, argymhellodd y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn ystyried cysylltu â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr i weld a oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb mewn cymryd a chynnal y gwasanaeth.<br><br>**6. COM10** |

| | |
|---|---|
| | Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i adolygu ffioedd angori ar gyfer Marina Porthcawl, gyda chytundeb na ddylai'r Cyngor fod yn rhoi cymhorthdal i hyn. Roedd y Pwyllgor o'r farn, ac felly'n argymell, y gellid ystyried hyn ymhellach, os nad eleni, ar gyfer y blynyddoedd i ddod, er mwyn archwilio a oedd unrhyw botensial i gynyddu'r ffioedd angori ar gyfer y marina fel dull o gynhyrchu incwm i'r Awdurdod.<br><br>**7. COM20**<br><br>**a** Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch COM20, a'r cynnig i gael gwared ar adnoddau glanhau strydoedd ychwanegol, o ystyried yr effaith weledol ac amgylcheddol bosibl y gallai hyn ei chael ar gymunedau ar draws y fwrdeistref. Argymhellodd yr Aelodau, os darperir cyllid drwy'r llywodraeth ganolog ar gyfer pensiynau athrawon, bod £125,000 o hwn yn cael ei ddefnyddio i barhau i ariannu gwaith glanhau strydoedd, gan ddileu COM20 o'r gostyngiadau yn y gyllideb.<br><br>**b** Yn ogystal â hyn, fel rhan o'r angen am newid trawsnewidiol o fewn yr Awdurdod, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn ystyried y potensial ar gyfer timau aml-sgil o staff a allai gwmpasu cylch gwaith ehangach, megis torri gwair a glanhau strydoedd, fel un enghraifft. Mae'r Pwyllgor yn cynnig bod y gyfarwyddiaeth yn edrych ar yr hyn y mae awdurdodau lleol cyfagos yn ei wneud yn y maes hwn, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol, cydgysylltiedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<br><br>**8. COM25**<br><br>**a** Mewn perthynas â'r cynnig i gau pob Canolfan Ailgylchu Gymunedol am ddiwrnod ychwanegol yr wythnos ar y penwythnos, teimlai'r Pwyllgor nad oedd hyn yn dderbyniol, yn enwedig o ystyried y ffaith nad oedd wedi gweld effaith y diwrnod cau cyntaf gan nad yw hyn wedi dod i rym eto. Yng ngoleuni'r effaith y gallai hyn ei chael ar y cyhoedd a'r Awdurdod, gan gynnwys yr effaith weledol a'r costau cysylltiedig yn sgil cynnydd posibl mewn tipio anghyfreithlon, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y cynnig hwn yn cael ei ddileu. Yn lle hynny, mae'r Aelodau'n cynnig bod rhywfaint o'r £60,000 hwn yn cael ei ganfod drwy symud ymlaen â'r cynnig i osod Depo Pandy yn fasnachol, a nodwyd yn COM24, gan gynnwys hyn yn arbedion 2024-25.<br><br>**b** Argymhellodd yr Aelodau hefyd, os bydd angen arbedion pellach o hyd, bod yr Awdurdod yn |

<table>
<tr><td></td><td>
ceisio lleihau oriau agor y canolfannau yn hytrach na chau am ddiwrnod llawn ychwanegol. Yn olaf, yn y sefyllfa waethaf posibl, pe bai'n rhaid i'r canolfannau gau am ail ddiwrnod ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn argymell mai diwrnod arall o'r wythnos yw hwn, nid y penwythnos, pan fyddai mwyafrif y cyhoedd yn bwriadu defnyddio'r canolfannau.
c Yn gysylltiedig â COM25, mae'r Pwyllgor yn argymell ymhellach bod yr Awdurdod yn ystyried ffyrdd posibl y gallai'r Canolfannau Ailgylchu Cymunedol weithio'n ddoethach, megis cyflwyno apwyntiadau i leihau ciwiau. Dywedodd yr Aelodau fod rhai awdurdodau lleol wedi cyflwyno apwyntiadau yn ystod y pandemig a'u bod wedi parhau â'r dull hwn gan ei fod wedi profi'n effeithiol.
9. COM30
Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y penderfyniad i ddychwelyd i gerbydau gwastraff diesel a chytunwyd bod hwn yn arbediad addas o ystyried barn yr Aelodau nad oedd digon o dystiolaeth bod tanwydd Olew Llysiau wedi'i Drin â Dŵr (HVO) yn cynnig effeithlonrwydd tanwydd neu ansawdd aer gwell nac unrhyw fanteision i fusnesau lleol. Yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol bresennol a'r sefyllfa a ragwelir yn y dyfodol a wynebir gan yr Awdurdod, argymhellodd y Pwyllgor na ddylid mynd ar drywydd unrhyw 'arloesi gwyrdd' wrth symud ymlaen oni bai ei fod naill ai'n cyfrannu at arbedion refeniw, yn cynnig budd uniongyrchol a diriaethol i drigolion, neu'n galluogi effeithlonrwydd canlyniadol mewn mannau eraill yng nghyllideb y Cyngor.
<u>Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol</u>
Yn gysylltiedig â COM3 a COM4, gofynnodd y Pwyllgor iddynt gael yr ystadegau ar gyfer tipio anghyfreithlon yn y fwrdeistref sirol am y tair blynedd diwethaf.
Yn gysylltiedig â COM13 a'r toriad sylweddol i Raglen yr Argyfwng Hinsawdd, gofynnodd y Pwyllgor am fanylion ynghylch pa grantiau allanol a chyllid yr oedd yr Awdurdod yn eu cael ar hyn o bryd ar gyfer hyn a lle y gallai edrych am fwy er mwyn cyflawni ei dargedau.
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad</td><td>22 Ionawr 2024</td></tr>
</table>

## 62. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Ionawr 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un, y ddolen hon ar gyfer Rhan Dau, a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Tri.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.08pm